

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty Cefn Coed

Clinig Tawe – wardiau Clun a Fendrod

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 14 - 16 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mehefin 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	27
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	28
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Glinig Tawe, Ysbyty Cefn Coed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gyda'r nos ar 14 Mawrth 2022 a'r diwrnodau dilynol, sef 15 a 16 Mawrth. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Clun – Ward Triniaeth Iechyd Meddwl Oedolion (Benywaidd)
- Fendrod – Ward Triniaeth Iechyd Meddwl Oedolion (Dynion)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), ac un adolygydd profiad cleifion. Roedd yr arolygiad dan arweiniad uwch-arolygydd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfedd â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Ceir rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm staff ymroddedig a oedd wedi ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion. Gwelsom fod staff yn rhyngweithio â chleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad.

Roedd cynlluniau gofal yn seiliedig ar gryfderau cleifion unigol gyda mewnbwn cytbwys gan bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, roedd cofnodion cleifion yn anhrefnus, ac roedd anghysondebau cadw cofnodion ledled yr ysbyty yn achosi her i staff gael mynediad at y dogfennau fwyaf diweddar ac wedi'u cwblhau.

Canfuwyd gennym fod dyluniad wedi dyddio Ysbyty Cefn Coed yn effeithio'n negyddol ar brofiad y claf ac yn creu anawsterau i'r staff sy'n gweithio yn yr amgylchedd hwn.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelwyd bod yr holl staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn barchus
- Darparu gofal amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar y claf
- Ystod dda o weithgareddau hybu iechyd a therapiwtig
- Roedd trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn cynorthwyo gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Yr amgylchedd gofal sy'n effeithio ar breifatrwydd ac urddas cleifion
- Yr amgylchedd gofal i staff reoli diogelwch y wardiau
- Strwythur a chysondeb y dogfennau a ddefnyddir yng nghofnodion cleifion.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Clinig Tawe yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ysbyty Cefn Coed, Y Cocyd, Abertawe, SA2 0GH, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae Ysbyty Cefn Coed yn ysbyty iechyd meddwl mawr, a agorodd gyntaf yn y 1930au, sy'n nodweddiadol o ddechrau'r 20^{fed} ganrif. Mae cyfran helaeth o'r ysbyty gwreiddiol wedi'i gau, ac mae gweddill y wardiau'n cael eu hailstrwythuro a'u hadnewyddu mewn ymgais i foderneiddio'r amgylchedd. Mae'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer ailgyflenwi wardiau iechyd meddwl oedolion yn y bwrdd iechyd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn arwain at gau Wardiau Clun a Fendrod ac adeiladu cyfleusterau modern, pwrpasol yn eu lle.

Mae Clinig Tawe yn darparu ymyriadau therapiwtig a chymorth i unigolion sy'n profi cyfnod iechyd meddwl aciwt lle mae angen gofal cleifion mewnol. Mae hyn fel arfer yn dilyn cyfnod asesu byr (hyd at 14 diwrnod fel arfer) yn ward asesu'r bwrdd iechyd yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot.

Mae dwy ward, Fendrod sy'n darparu gofal i ddynion (20 gwely) a Chlun yn darparu gofal i ferched (14 gwely). Ar adeg ein harolygiad roedd y ddwy ward yn llawn. Mae pob ward a'i thîm amlddisgyblaethol yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol y bwrdd iechyd.

Ymhlith gwasanaethau cleifion eraill yn Ysbyty Cefn Coed mae:

- Gwelfor, sy'n darparu ¹ gwasanaeth adsefydlu ffrwd araf a gwasanaeth gofal cam-i-lawr.
- Mae Ysbryd y Coed yn wasanaeth pwrpasol sy'n darparu asesiad a thriniaeth estynedig ac ystod o ymyraethau therapiwtig i gleifion na ellir

¹ Mae gwasanaeth adsefydlu iechyd meddwl ffrwd araf yn rhoi'r cyfle i gleifion gyflawni nodau, cynyddu eu hannibyniaeth ac mae'n sicrhau nad ydynt yn colli dim o'r cynnydd y maent eisoes wedi'i wneud, cyn dychwelyd i'r gymuned ehangach. Mae unedau cam-i-lawr yn rhoi'r cymorth a'r gofal sydd eu hangen ar bobl cyn iddynt ddychwelyd i'r gymuned ehangach.

eu rheoli, mewn unrhyw leoliad arall ar yr adeg honno yn ystod eu salwch, am ryw reswm neu'i gilydd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ac yn trin cleifion ag urddas a pharch.

Roedd ystod dda o weithgareddau hybu iechyd a therapiwtig yn yr ysbyty.

Mae'r amgylchedd gofal yn Ysbyty Cefn Coed wedi dyddio ac mae'n effeithio'n negyddol ar brofiad y claf.

Cadw'n iach

Roedd pwyslais clir ar y ddwy ward ynghylch darparu ystod eang o weithgareddau i gleifion i'w helpu i gynnal eu hannibyniaeth a'u cynorthwyo i wella.

Roedd ystod eang o wybodaeth i gleifion wedi'i harddangos yn y ddwy ward, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod gwybodaeth benodol ynghylch hybu iechyd a gwasanaethau menywod yn ward Clun. Dangosodd ein sgysiau gyda staff a chleifion, ynghyd ag adolygu cofnodion cleifion, bod ymgyrch glir i gefnogi'r cleifion ar ward Clun â'u hiechyd corfforol a sgrinio. Ar ward Fendrod, er bod tystiolaeth o iechyd corfforol yn cael ei adolygu a'i fonitro gan staff, roedd llai o wybodaeth rhywedd benodol yn ymwneud â gofal iechyd dynion.

Drwy gydol yr arolygiad, ar y ddwy ward, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a therapïau yn rheolaidd. Roedd gan y naill ward a'r llall gydlynedd gweithgareddau penodedig, ac roedd y ddau ohonynt hefyd yn gweithio rhai sifftiau penwythnos. Mae therapydd a thechnegydd therapi galwedigaethol yn darparu gwasanaeth i'r ddwy ward.

Mae mewnbyn y therapi galwedigaethol a'r cydlynwyr gweithgareddau yn helpu i ddarparu ystod briodol o weithgareddau asesu, yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Soniodd staff am ailafael mewn cysylltiadau â sefydliadau cymunedol a gafodd eu hatal o ganlyniad i'r cyfyngiadau a osodwyd yn ystod pandemig COVID-19.

Er bod pwyslais dealladwy ar gefnogi cleifion yn y gymuned, mae'n ofynnol i rai cleifion aros yn yr ysbyty ac nid ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymunedol. Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella'r ystod o gyfleusterau ymarfer corff sydd ar gael yn Ysbyty Cefn Coed, er bod campfa benodedig gydag offer, nid yw cleifion yn ei defnyddio fel mater o drefn. Felly prin oedd y cyfleoedd i gleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff strwythuredig yn yr ysbyty.

Roedd gan y ddwy ward gegin therapi galwedigaethol a oedd yn darparu cyfleuster hygyrch i gleifion ymarfer a datblygu eu sgiliau. Nid oedd unrhyw wiriadau tymheredd rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr oergelloedd therapi galwedigaethol ar y naill ward na'r llall, ac mae angen cyflawni'r rhain i sicrhau bod cynnyrch yn cael ei storio ar y tymheredd cywir.

Fel oedd yn wir yn ystod ein harolygiad blaenorol yn 2019, roedd y gegin ar ward Fendrod hefyd yn cael ei defnyddio fel ystafell gyfarfod ar gyfer trafodaethau clinigol, ac felly roedd yn anhygyrch yn ystod yr amseroedd hyn ac yn cyfyngu ar ddefnydd y cleifion ohoni. Yn ystod ein harolygiad blaenorol, dywedodd y bwrdd iechyd fod ystafell ychwanegol ar y ward wedi'i hadnewyddu ar gyfer cyfarfodydd, a fyddai'n golygu na fyddai'r gegin yn cael ei defnyddio mwyach ar gyfer cyfarfodydd clinigol. Fodd bynnag, drwy gydol yr arolygiad hwn, gwelsom fod y staff yn defnyddio'r gegin yn rheolaidd ar gyfer cyfarfodydd, ac felly cyfyngwyd yn sylweddol ar y cyfle i gleifion ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ystafell hon.

Roedd gan y ddwy ward eu gerddi penodedig eu hunain a gallai cleifion ar ward Clun gael mynediad i'r ardd drwy ddrws heb ei gloi. Nid oedd hyn yn wir ar ward Fendrod oherwydd ei bod yn anoddach i staff arsylwi'r ardd o'r ward, sydd ar lawr cyntaf yr ysbyty. Felly roedd mynediad y cleifion gwrywaidd i'r ardd yn dibynnu ar argaeledd staff i fynd gyda nhw, er mwyn sicrhau eu diogelwch. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar ryddid cleifion i fynd i'r ardal allanol, o ganlyniad i ddyluniad wedi dyddio Ysbyty Cefn Coed.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff ystod o ddulliau hybu iechyd penodol i ddynion eu harddangos ar ward Fendrod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth ymarfer corff, a'r gweithgareddau therapiwtig a chymdeithasol a gynigir yn yr ysbyty ac yn y gymuned fel ei gilydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cegin therapi galwedigaethol penodedig ar ward Fendrod

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mynediad rhwydd i'r ardd i gleifion ar ward Fendrod.

Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol ac yn trin cleifion ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig i ddarparu gofal ag urddas ar gyfer y cleifion.

Clywsom staff yn siarad gyda chleifion yn ddigynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau o staff cawsant ymatebion gofalgarn, cwrtais ac ymatebol ganddynt. Gwelsom staff yn bod yn barchus tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio cyflym a phriodol mewn ymgais i atal dwysâd yn ymddygiad cleifion.

Nid oedd amgylcheddau'r wardiau'n bodloni safonau cyfredol² unedau iechyd meddwl aciwt i oedolion yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod heriau yn ymwneud ag agweddau ar ofal urddasol.

Roedd y ddwy ward yn darparu llety rhywedd unigol. Roedd gan bob claf ar Ward Clun ei ystafell wely unigol ei hun i'w defnyddio. Roedd gan y rhan fwyaf o gleifion ar Ward Fendrod eu hystafell wely unigol eu hunain (roedd dwy ystafell wely a rennir, gyda phob un â dau wely). Roedd llenni rhwng y gwelyau yn yr ystafelloedd gwely a rennir, ond dim ond lefel sylfaenol o breifatrwydd y mae'r rhain yn ei gynnig i gleifion, ac nid ydynt yn adlewyrchu darpariaeth gofal iechyd meddwl modern. Nodwyd hefyd nad oedd bleindiau ffenestri mewn dwy ystafell wely ar ward Fendrod. Bydd hyn yn effeithio ar breifatrwydd a threfn gysgu'r cleifion yn y ddwy ystafell wely.

Nid oedd gan ystafelloedd gwely'r cleifion gyfleusterau en suite; roedd cyfleusterau toiledau, cawodydd a bath yn cael eu rhannu ar bob ward, gyda thair

²Nodyn Adeiladau Iechyd Cymru (WHBN) 03-01 - Unedau Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1178/WHBN%2003-01%20Adult%20Acute%20Mental%20Health%20Units%20-%20final.pdf>

cawod a bath ar ward Clun a dwy gawod a bath ar ward Fendrod. Mae'r ddarpariaeth hon yn annigonol ar gyfer nifer y cleifion ar bob ward.

Er gwaethaf adeiladau wedi dyddio'r ysbyty, roedd y bwrdd iechyd wedi addasu'r amgylchedd, gan gynnwys gwaith gwrth-glymu ac addurno parhaus ar y wardiau i wella ymddangosiad ardaloedd y cleifion. Fodd bynnag, nodwyd bod ward Clun yn teimlo'n fwy dymunol na ward Fendrod.

Drwy gydol y ddwy ward roedd difrod a marciau i ddodrefn, gosodiadau a ffitiadau y mae angen eu trwsio neu eu newid. Roedd y mannau hyn yn amharu ar ymddangosiad y ward a hefyd yn atal glanhau'r arwynebau hyn yn briodol, sy'n effeithio ar atal a rheoli heintiau.

Roedd nifer o gyfyngiadau ac arferion ar waith ar ward Fendrod nad oedd yn wir am ward Clun. Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd hyn yn cynnwys bod gan gleifion fynediad agored i'r ardd a chegin y cleifion ar ward Clun ond nid oedd hyn yn wir am ward Fendrod. Roedd gan ward Clun ei hystafell olchi dillad ei hun hefyd lle y gallai cleifion gael mynediad neu gymorth i olchi eu dillad eu hunain, ond ar ward Fendrod roedd yn rhaid i'r claf ddefnyddio gwasanaeth golchi dillad allanol y bwrdd iechyd oherwydd nad oedd cyfleuster ar y ward ar gyfer y cleifion gwrywaidd. Mae hyn yn effeithio ar urddas y cleifion gwrywaidd ac ar gynnal eu sgiliau a dysgu sgiliau newydd. Gwnaeth rhai cleifion gwrywaidd hefyd fynegi pryderon ynghylch eitemau o ddillad a gollwyd ac na ddychwelwyd wrth ddefnyddio gwasanaeth golchi dillad y bwrdd iechyd.

Yn ogystal, erys ystafell smygu i gleifion ar ward Fendrod. Roedd yr ystafell smygu yn flêr iawn ac â llawer o staeniau a marciau, roedd yn ardal annymunol iawn o'r ward ac nid oedd yn urddasol i gleifion. Hefyd, nid oedd gan yr ystafell smygu unrhyw seddau i gleifion eu defnyddio. Gwelsom gleifion yn eistedd ar y llawr neu ar eu cwrcwd wrth ddefnyddio'r ystafell hon, a oedd yn dirywio ymhellach urddas yr unigolion hynny a oedd am smygu.

Er bod awyru i gael gwared ar fwg, a gwelwyd bod y drws ar gau pan oedd cleifion yn defnyddio'r ystafell, roedd arogl mwg yn dal yn amlwg ar y ward ac yn effeithio ar yr holl gleifion a staff. Yn ystod ein harolygiad blaenorol yn 2019, dywedodd y bwrdd iechyd wrthym eu bod yn y broses o gau'r ystafell smygu, a bod trefniadau eraill yn cael eu gwneud i ddefnyddio gardd y ward, sef man smygu cleifion Clun. O ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth smygu yn 2022, rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau eu bod yn cael gwared ar yr ystafell smygu. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau hefyd, os yw cleifion yn gallu smygu, bod hyn yn cael ei alluogi mewn modd urddasol ac nad yw'n effeithio ar gleifion eraill neu staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rhaglen waith i foderneiddio amgylchedd gofal Ysbyty Cefn Coed yn mynd rhagddo mewn modd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod difrod i'r amgylchedd yn cael ei gywiro mewn modd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn gallu gorchuddio ffenestr ei ystafell wely rhag golau allanol a chynnal ei breifatrwydd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ysmegu ar gyfer cleifion ar ward Fendrod.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal, yn ogystal â manylion am sefydliadau a all ddarparu cymorth a chefnogaeth i gleifion y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Roedd gwybodaeth am eiriolaeth wedi'i harddangos yn weladwy iawn.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ar sut y gall cleifion a'u teuluoedd roi adborth am eu profiadau o'r gofal a ddarperir ar y wardiau. Roedd gwybodaeth hefyd wedi'i harddangos am sut y gallai cleifion fynegi pryder am eu gofal, gan gynnwys trefniadau Gweithio i Wella GIG Cymru³.

Nid oedd gwybodaeth ar gael am rôl AGIC a sut gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol dan God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983.⁴

³ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru. [lechydyng Nghymru | Gweithio i Wella \(wales.nhs.uk\)](https://www.wales.nhs.uk/lechydyngnghymru)

⁴ Mae Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd yn 2016) yn darparu arweiniad i weithwyr proffesiynol am eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal â darparu arweiniad i weithwyr proffesiynol, mae'r cod ymarfer hefyd yn darparu gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a gofalwyr. [Deddf Iechyd Meddwl 1983: cod ymarfer | LLYW.CYMRU](#)

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan y ddwy ward fwrdd yn dangos lluniau o aelodau staff, ac mae'r rhain yn helpu cleifion ac ymwelwyr i adnabod aelodau unigol o staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos ynghylch rôl AGIC a sut i gysylltu â'r sefydliad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy ein harsylwadau o ryngweithiadau rhwng staff a chleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol gyda chleifion. Roedd staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Pan oedd cleifion yn parhau i fod yn ansicr neu eu bod yn camddeall yr hyn roedd y staff yn ceisio'i gyfleu iddynt, byddai'r staff yn egluro'r hyn yr oeddynt wedi'i ddweud yn amyneddgar.

Gallai cleifion gael cymorth gan gyrff allanol mewn cyfarfodydd unigol i ddarparu cymorth ac arweiniad ar eu cyfer, megis cyfreithwyr neu gynrychiolwyr eirioli. Roedd teuluoedd cleifion a gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd unigol.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Fe wnaethom adolygu sampl o gofnodion gofal ar gyfer cleifion a gedwir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf). Gwelsom fod y dogfennau sy'n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth ar waith. Roedd hyn yn dangos bod hawliau cleifion wedi'u hyrwyddo a'u hamddiffyn fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.

Gallai cleifion hefyd ddefnyddio eu ffonau symudol i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau a'u teulu. Roedd gan gleifion nad oedd ganddynt ffôn symudol fynediad at ffonau'r ward.

Nid oedd gan y naill ward na'r llall ystafell gyfarfod benodedig lle gallai cleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat. Roedd man eistedd dymunol wrth fynedfa ward Clun, a dywedwyd wrthym y caiff ei defnyddio ar gyfer y ward honno. Fodd bynnag, nid oedd y fan hon yn rhoi digon o breifatrwydd gan fod cleifion a staff yn cerdded drwy'r fan hon yn rheolaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Er bod hyn wedi galluogi staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol, roedd amgylchedd wedi dyddio'r ysbyty yn effeithio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y staff.

Roedd dogfennau cynlluniau gofal yn adlewyrchu parthau'r Mesur Cymreig. Roedd cynlluniau gofal yn seiliedig ar gryfderau cleifion unigol, ac roedd yn amlwg bod safbwyntiau cleifion yn cael eu hystyried gyda mewnbwn cytbwys gan bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, roedd cofnodion cleifion yn anhrefnus, ac roedd anghysondebau cadw cofnodion ar draws yr ysbyty yn achosi her i staff gyrchu'r dogfennau fwyaf diweddar ac wedi'i chwblhau.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Mae Clinig Tawe wedi'i leoli yn adeilad gwreiddiol Ysbyty Cefn Coed, ac mae'n cynnwys dwy ward, Ward Clun a Ward Fendrod. Roedd man awyr agored dymunol wedi'i gynnal a'i gadw'n dda wrth fynedfa clinig Tawe, a oedd yn cynnwys seddau yn yr awyr agored a gwelyau blodau uchel.

Mae mynediad gwastad i brif fynedfa'r adeilad a ward Clun. Mae hyn yn gwneud mynediad i'r ward yn haws i gleifion ac ymwelwyr ag anawsterau symudedd. Mae ward Fendrod ar lawr cyntaf yr adeilad a dim ond drwy ddringo grisiau y gellir cael mynediad iddi. Mae hyn yn golygu na all cleifion sydd â symudedd cyfyngedig gael mynediad i'r ward hon. Eglurwyd pe bai angen gofal ac ymyrraeth o'r fath, yna byddai'r claf fel arfer yn derbyn gofal ar Ward F yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

Nid yw dyluniad strwythurol wedi dyddio'r wardiau yn caniatáu arsylwi cleifion yn hawdd. Mae nifer o goridorau a chilfachau y mae'n anodd i staff eu gweld. Mae'r

bwrdd iechyd wedi ceisio lliniaru'r broblem drwy gynnwys drychau arsylwi; fodd bynnag, mae cynllun y wardiau'n parhau i beri problemau arsylwi er mwyn cynnal diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr bob amser.

Roedd gwelliannau parhaus yn cael eu gwneud i amgylchedd y ward fel rhan o waith gwrth-glymu. Lle erys pwyntiau clymu, aseswyd risg y rhain a nodwyd camau lliniaru. Roedd torwyr clymiadau ar gael yn rhwydd ar y ddwy ward.

Roedd pwyntiau galw ar gael yn ystafelloedd gwely'r cleifion, ystafelloedd ymolchi a thoiledau. Roedd y rhain yn galluogi cleifion i roi gwybod i'r staff os oedd angen cymorth arnynt. Roedd larymau personol ar gael i'r staff. Gwelsom fod y staff yn gwisgo larymau ar ward Fendrod, ond nid oedd hyn bob amser yn wir ar ward Clun. Dywedodd rhai aelodau o staff Clun nad oeddent yn teimlo bod angen gwisgo larwm gan fod ganddynt berthynas gadarnhaol â chleifion ac nad oeddent yn disgwyl y byddai angen cymorth brys gan staff eraill arnynt yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, mae darparu gofal iechyd meddwl yn anrhagweladwy iawn, a gallai arwain at fod angen cymorth yn annisgwyl, gan gynnwys argyfwng meddygol. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gallu ymateb i gais am gymorth yn ddi-oedi pan fo angen.

Disgrifiwyd strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion. Dywedwyd wrthym fod technegau ataliol yn cael eu defnyddio, a lle bo angen, byddai staff yn arsylwi cleifion yn amlach pe bai eu hymddygiad yn destun pryder. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod ataliaeth gorfforol ddiogel yn cael ei defnyddio ar gleifion, ond roedd hyn yn brin a dim ond pan fyddai popeth arall yn methu y'i defnyddiwyd.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau ac roedd unrhyw ddefnydd o ataliaeth yn cael ei ddogfennu a'i adolygu. Roedd hierarchaeth o gydnabod digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau digwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn modd amserol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod eglurder ynghylch y rhesymau pam a phryd y mae staff yn gwisgo larymau personol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau sefydledig ar waith ar y ddwy ward. Fodd bynnag, roedd yr adeilad wedi dyddio yn llesteirio ymdrechion staff i atal a rheoli

heintiau yn effeithiol yn barhaus. Roedd diffyg lle storio ar y ddwy ward hefyd, a oedd yn golygu nad oedd eitemau'n cael eu storio'n briodol.

Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith i sicrhau y caiff y wardiau eu glanhau'n rheolaidd ac yn effeithiol. Roedd yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau, gan gynnwys sychu ffonau a chyfrifiaduron gyda chynhyrchion glanhau rhwng, ac ar ôl iddynt gael eu defnyddio er mwyn lleihau'r risg o groes-halogi.

Roedd y bwrdd iechyd wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddaru'r polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o rwymedigaethau rheoli heintiau. Roedd yna ddogfennau COVID-19 i gefnogi staff ac i sicrhau bod staff yn parhau i gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau.

Roedd mynediad i gyfleusterau ymolchi dwylo a sychu dwylo ledled yr ysbyty. Yn ystod ein trafodaethau, ni amlygwyd unrhyw faterion mewn perthynas â mynediad i gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys masgiau a menig. Gwelwyd bod y staff yn gwisgo masgiau drwy gydol yr arolygiad.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol.

Fel y nodwyd gennym yn ein harolygiad blaenorol, roedd prinder cyfleusterau toiledau a chawodydd ar bob ward. Roedd y rhain yn cael eu defnyddio'n helaeth drwy gydol y dydd ac felly roedd yn anodd cynnal glendid yr ardaloedd hyn. Gwnaeth clefion, staff cadw tŷ a staff wardiau sylwadau am hyn. Nodwyd hefyd bod problemau cyson gyda'r cyfleusterau hyn, megis y toiledau'n blocio, hefyd yn cyfyngu ar eu hargaeledd.

Roedd cyfleusterau ymolchi a sychu dwylo, ynghyd â hylif diheintio dwylo, ar gael ar y ddwy ward. Roedd poster i rhoi cyfarwyddiadau ar ymolchi dwylo'n effeithiol hefyd wedi'u harddangos. Mae ymolchi dwylo'n effeithiol yn bwysig i leihau croes-heintio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n codi dro ar ôl tro gyda chyfleusterau toiledau yn cael eu datrys.

Maethiad a hydradu

Gwelsom fod cleifion yn cael dewis o fwyd a diod. Y tu hwnt i'r prif brydau bwyd, roedd byrbrydau a diodydd ar gael drwy gydol y dydd. Roedd prif brydau'n cael eu paratoi oddi ar y safle a'u dosbarthu mewn cynwysyddion wedi'u pacio i'r wardiau. Yna cynheswyd y rhain gan y staff llety, cyn cael eu gweini.

Gwelsom brydau'n cael eu gweini ar y ddwy ward. Roedd yn ymddangos bod cleifion yn mwynhau'r prydau a ddarperir, er bod rhai cleifion wedi mynegi rhywfaint o anfodlonrwydd oherwydd yr opsiynau ailadroddus ar y fwydlen i gleifion a oedd wedi bod yn yr ysbyty am gyfnodau hwy.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu opsiynau'r fwydlen i gleifion er mwyn darparu ystod eang o ddewisiadau yn ysbyty Cefn Coed.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd holl ystafelloedd y clinig dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Roedd yr holl droliau meddyginiaeth dan glo ac wedi'u diogelu i'w hatal rhag cael eu symud o'r ystafell glinig. Fodd bynnag, gwelsom fod yr oergell feddyginiaeth ar ward Fendrod heb ei chloi ar y noson gyntaf. Nodwyd bod yr oergell ar wardiau Fendrod a Chlun dan glo ar bob adeg arall yn ystod yr arolygiad.

Roedd tymereddau oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu monitro a'u cofnodi, i wirio bod meddyginiaeth yn cael ei storio o fewn yr ystod tymheredd priodol. Fodd bynnag, er bod gwiriadau tymheredd amgylchol yr ystafelloedd clinig yn cael eu cyflawni ar Ward Fendrod, nid oedd hyn ar waith ar Ward Clun. Felly nid ydym wedi ein sicrhau bod meddyginiaeth nad oedd angen ei chadw mewn oergell yn cael ei storio o fewn yr ystod tymheredd a gynghorir gan y gwneuthurwyr.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar y ward ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n debygol o gael eu camddefnyddio. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal a'u llofnodi'n briodol gan y staff nyrsio.

Drwy ein hadolygiad o gofnodion meddyginiaeth roedd yn ymddangos bod meddyginiaeth yn cael ei defnyddio'n gymesur ag anghenion unigolion, a lle bo'n briodol, roedd dewisiadau eraill yn cael eu hystyried gyntaf.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR)⁵ a adolygwyd wedi'u cwblhau'n llawn gan staff. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau holl fanylion y cleifion ar y tudalennau blaen a'r tudalennau dilynol. Cofnodwyd statws cyfreithiol Deddf Iechyd Meddwl pob claf ar y siart cofnod rhoi meddyginiaeth, ond nid oedd copïau o'r tystysgrifau cydsynio â thriniaeth bob amser yn cyd-fynd â'r siart cofnod rhoi meddyginiaeth perthnasol. Felly nid ydym yn cael ein sicrhau bod nyrsys cofrestredig bob amser yn gwirio'r tystysgrifau cydsynio â thriniaeth er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth wedi'i hawdurdodi'n gyfreithiol.

Ar y ddwy ward roedd ffolder meddyginiaeth cleifion unigol ar waith i helpu i reoli meddyginiaeth. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd fformat safonol i'r ffeiliau ac felly bod anghysondebau o ran ffeilio ym mhob ffeil. Roedd y ffolderi unigol hefyd mewn cyflwr gwael, gyda dogfennau rhydd, roedd risg y gallai gwybodaeth gael ei cholli o'r ffolderi unigol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod oergelloedd meddyginiaeth yn parhau i fod dan glo pan nad yw'r staff yn eu defnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd amgylchol ystafelloedd clinig yn cael ei gofnodi a bod trefniadau ar waith i reoli tymheredd ystafelloedd clinig yn ddigonol i ganiatáu storio meddyginiaeth o fewn yr ystod tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o dystysgrifau cydsynio â thriniaeth yn cael eu cadw gyda'r siart cofnod rhoi meddyginiaeth cyfatebol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cyfeirio at y dystysgrif cydsynio â thriniaeth wrth roi meddyginiaeth.

⁵ Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yw'r adroddiad sy'n gweithredu fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart meddygol.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gan atgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Bu'r bwrdd iechyd yn monitro'r cyfraddau cwblhau hyfforddiant o ran diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed er mwyn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

Gofal effeithiol

Cadw cofnodion

Gwelsom fod cofnodion a gedwir yn yr uned yn cael eu cadw'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Yn swyddfa pob ward roedd Byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion, a oedd yn darparu gwybodaeth allweddol am bob claf unigol. Er bod yr holl wybodaeth gyfrinachol wedi'i chofnodi tu ôl i adrannau cau'r byrddau cipolwg ar statws cleifion, pan oeddent ar agor ac yn cael eu hadolygu gan staff, roedd modd darllen y wybodaeth hon drwy ffenestri'r ddwy swyddfa nyrsio. Roedd y staff yn ymwybodol o hyn ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oedd gwybodaeth yn cael ei darllen gan gleifion y tu allan i'r ystafell a oedd yn edrych i mewn. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a oes unrhyw beth arall y gallant ei wneud i sicrhau cyfrinachedd y wybodaeth a gofnodir ar y byrddau cipolwg ar statws cleifion.

Gwnaethom adolygu cofnodion gofal pump claf. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau gofal a thriniaeth a dogfennau cadw statudol. Roedd cofnodion papur yn cael eu defnyddio ar y ddwy ward i gyfeirio gofal cleifion. Er y gwelsom y gwnaed ymdrechion i drefnu'r wybodaeth gan ddefnyddio rhanwyr tudalennau, roedd yn anodd dilyn cofnodion y cleifion oherwydd bod y wybodaeth yn cael ei ffeilio'n anghyson.

Roedd y rhan fwyaf o'r dogfennau papur yn cael eu drafftio'n electronig gyda'r bwriad o'u hargraffu a'u cynnwys yn y cofnodion papur, fodd bynnag nid oedd hyn bob amser wedi digwydd. Felly nid oeddem yn gallu dod o hyd i'r asesiadau risg, y cynllun gofal a'r dogfennau cysylltiedig mwyaf diweddar yn hawdd yng nghofnod pob claf.

Caiff ein canfyddiadau penodol ynghylch ansawdd cofnodion gofal eu nodi yn yr adrannau a ganlyn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer pedwar claf ar draws y ddwy ward a arolygwyd. Gwnaethom siarad hefyd â thîm y ddeddf iechyd meddwl i drafod y trefniadau monitro ac archwilio sydd ar waith ar gyfer yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod cyfnodau cadw wedi'u gweithredu a'u hadnewyddu o fewn gofynion y Ddeddf ac roedd copïau o bapurau cadw cyfreithiol ar gael i staff y wardiau yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg hefyd fod cyfnodau cadw'r cleifion hynny wedi'u hadolygu gan y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl ac yn ystod Gwrandawiadau Rheolwyr Ysbyty⁶, pan oedd yn berthnasol neu'n ofynnol.

Gwnaethom nodi bod yr holl absenoldebau wedi cael eu hawdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17. Fodd bynnag, nid oedd cofnod o gleifion yn llofnodi eu ffurflen absenoldeb ac nid oedd rheswm wedi'i nodi pam na wnaed hyn.

Roedd diffyg tystiolaeth hefyd bod cleifion wedi cael gwybod fel mater o drefn am eu hawliau o dan y Ddeddf a p'un a oedd y claf wedi deall y rhain.

Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a oedd yn cael ei storio ar y wardiau yn anhrefnus ac yn anodd ei dilyn. Nid oedd y cofnodion yn cynnwys yr holl ddogfennau gofynnol mewn trefn systematig; felly ni chawsom sicrwydd bod yr holl ddogfennau gofynnol ar gael i staff y ward.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnod clir o'r claf yn derbyn copi o'i ffurflen absenoldeb neu'r rheswm pam na wnaed hyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnod clir o gleifion yn cael gwybod am eu hawliau a chanlyniad y drafodaeth, neu'r rheswm pam na wnaed hyn.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o bum claf.

⁶ Y sefydliad (neu unigolion) sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf mewn ysbyty penodol. Mae gan reolwyr ysbyty swyddogaethau amrywiol o dan y Ddeddf, sy'n cynnwys y pŵer i ryddhau claf.

Er i ni ganfod bod cofnodion papur yn anhrefnus, roedd tystiolaeth o gynllunio gofal tîm amlddisgyblaethol datblygedig ar waith ar y ddwy ward. Roedd dogfennau cynlluniau gofal yn adlewyrchu meysydd y Mesur Cymreig gydag amcanion mesuradwy ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd anghysondebau rhwng y dogfennau a'r templedi safonol a ddefnyddiwyd ar y ddwy ward. Mynegodd y staff y siaradwyd â hwy eu pryderon ynghylch y gwahaniaethau yn y gwaith papur, ond dywedwyd wrthym fod hwn eisoes yn cael ei adolygu, gyda'r nod o gysoni'r gwaith papur a ddefnyddir.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd ystod o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Roedd cynlluniau gofal unigol yn seiliedig ar gryfderau cleifion ac yn canolbwyntio ar wellhad, adferiad ac annibyniaeth. Roedd cofnodion cleifion yn dangos barn y claf ar ei gynllun gofal, ond nid oedd yn glir o ddarllen y dogfennau p'un a oedd y claf wedi bod yn rhan o'r drafodaeth tîm amlddisgyblaethol neu p'un a drafodwyd y cynllun â'r claf ar wahân.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu fformat cofnodion cleifion a gwaith papur yn ysbyty Cefn Coed.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hunan ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd â dealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Gwelsom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Roedd y bwrdd iechyd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu clir a oedd yn canolbwyntio ar wella gofal cleifion ac arfer clinigol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd strwythur trefniadol clir ar gyfer yr ysbyty, a oedd yn darparu llinellau rheoli ac atebolrwydd diffiniedig. Roedd y trefniadau hyn ar waith yn ystod y dydd, ac roedd uwch-reolwyr a threfniadau ar alwad ar waith ar gyfer y shifft nos.

Canfuom fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn drwy raglen archwilio barhaus a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau o staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd y gwasanaeth wedi sefydlu grŵp lleihau arferion cyfyngol, i adolygu ac ymgorffori arferion sy'n galluogi staff i ddarparu gofal yn unol â'r egwyddorion lleiaf cyfyngol.

Yn ystod ein hamser ar y wardiau, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol ynghyd â pherthynas dda rhwng staff y gwelsom eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd yn amlwg bod staff yn ymdrechu i ddarparu lefel uchel o ofal i'r grwpiau cleifion.

Roedd timau amlddisgyblaethol ac uwch-reolwyr byrddau iechyd penodedig ac ymroddedig ar y wardiau. Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff yn yr ysbyty'n fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd lefelau staffio yn ymddangos yn briodol i sicrhau diogelwch y cleifion yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cadw cleifion yn ddiogel ond nad ydynt bob amser yn gallu cynnal yr ymgysylltiad therapiwtig â chleifion y byddent yn hoffi ei wneud ac a fyddai'n eu cynorthwyo i wella'n gynt.

Er bod nifer o swyddi nyrsys cofrestredig gwag, roedd tystiolaeth bod y bwrdd iechyd yn ceisio recriwtio i'r swyddi gwag. Lle bo modd, defnyddiai'r ward ei staff ei hun a staff rheolaidd o fanc staff y bwrdd iechyd i lenwi'r diffygion hyn.

Roedd cofnodion hyfforddi a ddarparwyd gan uwch aelodau o staff y ward yn dangos bod hyfforddiant staff yn cael ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau bod safonau hyfforddiant y bwrdd iechyd yn cael eu bodloni. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi derbyn hyfforddiant gorfodol cyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod wardiau wedi'u staffio'n ddigonol â chymysgedd sgiliau priodol i gefnogi ymgysylltiad therapiwtig cleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgryfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Fel arfer, ni roddir rhybudd cyn ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG gan AGIC yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi ciplun o safonau gofal yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Cefn Coed – Clinig Tawe

Ward/uned(au): Clun a Fendrod

Dyddiad yr arolygiad: 14 – 16 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Cefn Coed – Clinig Tawe

Ward/uned(au): Clun a Fendrod

Dyddiad yr arolygiad: 14 – 16 Mawrth 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystod o ddulliau hybu iechyd penodol i ddynion yn cael eu harddangos ar ward Fendrod.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Tîm y ward i weithio gydag asiantaethau allanol i ddarparu ac arddangos deunyddiau hybu iechyd penodol i ddynion. Sicrhau bod hybu iechyd yn eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd cymunedau cleifion.	Rheolwr ward a Therapydd Galwedigaethol (ThG) Arweiniol	Mehefin 2022 Gorffennaf 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth ymarfer corff, a'r gweithgareddau therapiwtig a chymdeithasol a gynigir yn yr ysbyty ac yn y gymuned fel ei gilydd.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Nyrs arweiniol a Therapydd Galwedigaethol arweiniol a rheolwr y gyfarwyddiaeth i adolygu'r llety sydd ar gael er mwyn cefnogi ymarfer corff, ynghyd â gweithgareddau therapiwtig a	Nyrs arweiniol a ThG arweiniol a rheolwr y gyfarwyddiaeth	Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		chymdeithasol ar Safle Ysbyty Cefn Coed. Wedi'i gyflawni Lle i'w nodi a'i addurno. Nodi gweithgareddau ac annog rhoddion a datblygu cynigion am gronfeydd elusenol. Rheolwr ward, ThG a chydlynnydd gweithgareddau i adolygu'r ddarpariaeth a hybu ymarfer corff, gweithgareddau therapiwtig a chymdeithasol a sicrhau bod y rhain ar gael yn yr ysbyty ac mewn lleoliadau cymunedol. Ceisio cynnwys ystod o wahanol weithgareddau. ThG a'r cydlynnydd gweithgareddau i gasglu barn defnyddwyr y gwasanaeth ar ddewisiadau ac amrywiaeth.	Nyrs arweiniol a ThG arweiniol a rheolwr y gyfarwyddiaeth Rheolwr ward, ThG a chydlynnydd gweithgareddau.	Medi 2022 Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cegin therapi galwedigaethol penodedig ar ward Fendrod.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Nyrs arweiniol a ThG arweiniol a rheolwr y gyfarwyddiaeth i adolygu'r llety i ddarparu ystafell gyfarfod fwy priodol i alluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio'r cegin therapi galwedigaethol yn llawn. Wedi'i gyflawni	Nyrs arweiniol a ThG arweiniol a rheolwr y gyfarwyddiaeth	Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Lle wedi'i nodi a defnydd llawn o'r gegin therapi galwedigaethol wedi'i adfer.		Medi 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mynediad rhwydd i'r ardd i gleifion ar ward Fendrod.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Y tîm amlddisgyblaethol i adolygu mynediad i'r ardd a'i gynnwys ar dempled y tîm amlddisgyblaethol.	Tîm amlddisgyblaethol I ward Fendrod	Mehefin 2022
		Annog mynediad drwy wahanol weithgareddau gan gynnwys grwpiau garddio.	Cydlynnydd gweithgareddau Fendrod	Ebrill 2022
		Nyrs arweiniol a thîm amlddisgyblaethol ward Fendrod i gwblhau asesiadau risg o ran mynd i'r ardd yn amlach.	Nyrs arweiniol a thîm amlddisgyblaethol I Fendrod	Gorffennaf 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rhaglen waith i foderneiddio'r amgylchedd gofal yn Ysbyty Cefn Coed yn mynd rhagddo mewn modd amserol.	4.1 Gofal ag urddas	Mae rhaglen waith gwrth-glymu yn parhau yng Nghlinig Tawe, sy'n cynnwys adnewyddu ystafelloedd ymolchi a dodrefn newydd yn yr ystafelloedd gwely.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Gorffennaf 2022
		Mae'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) ar gyfer ailgyflenwi wardiau iechyd meddwl oedolion yn y bwrdd iechyd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth	Tîm uwch-reolwyr	Diwedd 2025

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cymru. Bydd hyn yn arwain at gau Wardiau Clun a'r Fendrod a gosod cyfleusterau modern pwrpasol yn eu lle.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod difrod i'r amgylchedd yn cael ei gywiro mewn modd amserol.	4.1 Gofal ag urddas	Rheolwr y ward i gynnal arolygiad trylwyr o'r amgylchedd ac uwchgyfeirio unrhyw ddifrod a gwelliannau angenrheidiol. Rheolwr y Gyfarwyddiaeth i adolygu'r broses a ddefnyddir i godi gwaith ar yr amgylchedd ac effeithiolrwydd hyn a'r broses uwchgyfeirio. Wedi'i gwblhau.	Rheolwr ward, timau ystadau Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Mehefin 2022 Mai 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob claf yn gallu gorchuddio ffenestr ei ystafell wely rhag golau allanol a chynnal ei breifatrwydd.	4.1 Gofal ag urddas	Rheolwyr wardiau i adolygu'r cyfleusterau presennol i sicrhau eu bod o safon dda ac yn briodol. Trefnu deunyddiau newydd yn ôl yr angen a sicrhau fod mynediad at stoc pe bai angen gosod rhywbeth newydd yn lle rhywbeth sydd wedi torri ar unwaith.	Rheolwyr ward	Mehefin 2022 Gorffennaf 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ysmegu ar gyfer cleifion ar Ward Fendrod.	4.1 Gofal ag urddas	Y grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio'r opsiynau ar gyfer cael gwared ar yr ystafell ysmegu. Creu gwerthusiad opsiynau a bydd yn cael ei lywio gan y tîm amlddisgyblaethol. Bydd ymgysylltu	Nyrs arweiniol, Rheolwr Ward, Rheolwr a thîm	Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		â chleifion yn hollbwysig i gyfrannu at y grŵp hwn. Ymgysylltu â gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru a Helpa Fi i Stopio Cymru i barhau i annog gweledigaeth ddi-fwg Llywodraeth Cymru a'r bwrdd iechyd.	Gweithrediadau'r Gyfarwyddiaeth	Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos am rôl AGIC a sut i gysylltu â'r sefydliad	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Rheolwyr wardiau a chlercod wardiau i arddangos y wybodaeth hon ar y byrddau gwybodaeth i gleifion.	Rheolwyr wardiau a chlercod wardiau	Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau addas ar gael i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat	6.2 Hawliau pobl	Nyrs Arweiniol, ThG Arweiniol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth i adolygu'r llety i ddarparu man preifat mwy priodol i gleifion gwrdd ag ymwelwyr. Wedi'i gyflawni. Edrych ar y cyfleusterau sydd ar gael i blant a phobl ifanc wrth ymweld.	Nyrs Arweiniol, ThG Arweiniol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Rheolwr ward a thîm ward	Ebrill 2022 Awst 2022
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod eglurder ynghylch y rhesymau pam a phryd y mae staff yn gwisgo larymau personol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Rheolwyr wardiau i drafod pwysigrwydd larymau personol mewn achos o argyfwng meddygol gyda thimau ward, er mwyn sicrhau bod y tîm yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Timau gweithrediadau i adolygu'r defnydd o larymau personol a'r systemau a ddefnyddir, a chynnig atebion i'r tîm uwch-reolwyr.	Rheolwyr ward Tîm Gweithrediadau	Mehefin 2022 Awst 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod unrhyw broblemau sy'n codi dro ar ôl tro gyda chyfleusterau toiled yn cael eu datrys.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Rheolwr ward Fendrod i ddod i ddeall y problemau sy'n codi dro ar ôl tro a mynd i'r afael â nhw ar unwaith. Mae'r ystadau wedi cynnal archwiliad o'r peipiau dŵr. Wedi'i gyflawni	Rheolwr y ward	Ebrill 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu opsiynau'r fwydlen i gleifion er mwyn darparu ystod eang o ddewisiadau yn ysbyty Cefn Coed.	2.5 Maeth a Hyradu	Bydd Nyrs Arweiniol a Rheolwyr Wardiau yn cydweithio â'r adran arlwyo i drafod yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y fwydlen. Nyrsys Arweiniol ar draws yr Is-adran Iechyd Meddwl i fyfrio ar brosiectau gwella ansawdd diweddar a gweithredu arnynt er mwyn sicrhau y ceir dewisiadau mwy amrywiol ar y fwydlen.	Nyrs Arweiniol a Rheolwyr Ward Nyrsys Arweiniol	Mehefin 2022 Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod oergelloedd meddyginiaeth yn parhau i fod dan glo pan nad yw'r staff yn eu defnyddio.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rheolwyr wardiau i sicrhau y caiff nodiadau atgoffa yn cael eu hanfon at nyrsys cofrestredig, y caiff hysbysiadau ac awgrymiadau eu hadolygu a chaiff hapwiriadau eu cynnal er mwyn cael sicrwydd. Wedi'i gyflawni	Rheolwyr ward	Ebrill 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymheredd amgylchol ystafelloedd clinig yn cael ei gofnodi a bod trefniadau ar waith i reoli tymheredd ystafelloedd clinig yn ddigonol i ganiatáu storio meddyginiaeth o fewn yr ystod tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Rheolwyr wardiau i greu proses i fonitro a rheoli'r tymheredd yn yr ystafelloedd clinig, drwy ddefnyddio thermomedr a gwiriadau dyddiol.	Rheolwyr ward	Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod copïau o dystysgrifau cydsynio â thriniaeth yn cael eu cadw gyda'r siart cofnod rhoi meddyginiaeth cyfatebol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Rheolwr y ward i adolygu trefniadaeth ffolderi defnyddwyr y gwasanaeth i sicrhau bod y copïau cydsynio wedi'u nodi'n glir a bod cyfeiriad atynt yn y siart cofnod rhoi meddyginiaeth. Clercod wardiau i archebu ffolderi clir i'w gosod yn ffolderi defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn hwyluso gwiriadau i sicrhau eu bod yn cynnwys copïau o gydsynio. Wedi'i gyflawni	Rheolwr ward a chlerc y ward	Ebrill 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cyfeirio at y dystysgrif cydsynio â thriniaeth wrth roi meddyginiaeth.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae gwybodaeth am hyn yn cael ei chyfleu'n effeithiol drwy negeseuon e-bost ac wrth drosglwyddo gofal. Wedi'i gyflawni. Rheolwyr wardiau i sicrhau, drwy hyfforddiant priodol, bod nyrsys yn deall y gofyniad i gyfeirio at y dystysgrif cydsynio â thriniaeth wrth roi meddyginiaeth. Rhoi systemau archwilio ar waith i fonitro hyn wrth symud ymlaen. Wedi'i gyflawni	Rheolwyr ward	Ebrill 2022 Gorffennaf 2022 Ebrill 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnod clir o'r claf yn cael copi o'i ffurflen absenoldeb neu'r rheswm pam na wnaed hyn.	3.5 Cadw cofnodion Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Rheolwyr wardiau i ddatblygu proses i sicrhau bod staff y ward yn darparu copi o'r ffurflen absenoldeb.	Rheolwr y ward	Mehefin 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnod clir o gleifion yn cael gwybod am eu hawliau a chanlyniad y drafodaeth, neu'r rheswm pam na wnaed hyn.	3.5 Cadw cofnodion Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Rheolwyr wardiau ac arweinwyr clinigol i ddatblygu proses archwilio ar gyfer sicrhau sicrwydd parhaus.	Rheolwr ward a thîm ward	Mehefin 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu fformat cofnodion cleifion a gwaith papur yn ysbyty Cefn Coed.	3.5 Cadw cofnodion Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Y tîm gweithrediadau a'r rheolwr gwella busnes i ymgysylltu â'r tîm cofnodion meddygol i adolygu fformat cofnodion cleifion.	Tîm gweithrediadau a rheolwr gwella busnes	Medi 2022
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod wardiau wedi'u staffio'n ddigonol â chymysgedd sgiliau priodol i gefnogi ymgysylltiad therapiwtig y cleifion	7.1 Gweithlu	Rheolwyr wardiau i gwblhau rhestrau dyletswyddau a nodi diffygion mewn modd amserol a dilyn y broses uwchgyfeirio bresennol. Nyrs arweiniol i graffu ar y rhestr ddyletswyddau. Recriwtio ar gyfer swyddi gwag yn amserol, ac adolygu'r cymysgedd sgiliau i sicrhau bod penodiadau'n briodol. Proses a gyflawnir gan y broses rheoli swyddi gwag. Cynnal cyfarfod gweithlu yn fisol i drafod swyddi gweigion. Camau gweithredu uchod wedi'u cyflawni.	Rheolwyr ward	Ebrill 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Janet Williams

Swydd:

Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth

Dyddiad:

05/05/22